EOC-05-01 (min)

Pwyllgor Cyfle Cyfartal

COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | 13eg Mehefin 2001 | |
| Amser: | 9.30 a.m. | |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenelaethol | |
| Presennol: Aelodau | | |
| | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gë yr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| | Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a Phenfro |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Teresa Rees | Comisiynydd Cyfle Cyfartal dros Gymru |
| | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Swyddogion | Peter Fullerton | Prif Ystadegydd |
| | Alan Jackson | Cyfarwyddiaeth Ystadegol |

| | |
|---|---|
| Peter Gregory | Pennaeth y Grë p Rheoli Personél a Gwasanaethau Busnes |
| Margaret Evans | Rheoli Personél |
| Mike Harper | Pennaeth, Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Laurie Pavelin | Is-adran Atebolrwydd Ariannol |
| Stephen Redmond | NHS |
| David Williams | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| | |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Olga Lewis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Jonathan Morgan a Mashuq Ally.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Dr Lisa Horelli**

1.1 Croesawyd Dr Horelli gan y Cadeirydd. Nododd Dr Horelli fod gan y Ffindir boblogaeth o 5.5 miliwn o bobl a hanes sy'n debyg i un Cymru. Roedd ardaloedd Gogleddol y wlad yn ardal Amcan 1 benodedig. Roedd y gwahaniaeth mawr yn ymwneud â mudiad y merched. Ymddengys fod diwylliant o "ddynion yn ennill y bara menydn" yn bodoli yng Nghymru. Nid oedd y diwylliant hwnnw'n bresennol yn y Ffindir. Roedd y Ffindir yn dilyn trywydd y model Nordig o gymdeithas les. Seiliwyd y gymdeithas ar fynediad cyfartal i addysg dda, hawliau cymdeithasol a gwaith. Roedd yna isadeiledd a oedd yn galluogi dynion a merched i weithio. Roedd cyfnod mamolaeth ar gael am dair blynedd; roedd yna rwydwaith o feithrinfeydd ac ysgolion meithrin cyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, roedd y bwlch cyflogau yn dal i fodoli. I raddau helaeth, fe'i hachoswyd gan y sector gofal plant cyhoeddus mawr, a oedd yn cyflogi merched yn bennaf, gan dalu cyflogau gwael.

1.2 Yn ystod y tair blynedd diwethaf, bu llywodraeth y Ffindir yn datblygu sawl project ar gydraddoldeb ac roedd Dr Horelli yn gyfrifol am y project ar fethodoleg. Roedd yn cynnwys cydweithrediad 6 gweinyddiaeth: amaeth, addysg, materion cymdeithasol ac iechyd, materion tramor, llafur ac amgylchedd. Roedd y broses o gyflwyno i'r brif ffrwd yn gofyn am ewyllys gwleidyddol a gweinyddol yr oedd yn rhaid ei adlewyrchu mewn dogfennau, cyllidebu, ac adnoddau; roedd angen datblygu gallu mewn materion yn ymwneud â rhyw a monitro'n rheolaidd.

1.3 Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, nododd Dr Horelli, er nad yw gofal plant yn rhad ac am ddim yn y Ffindir, fod y wladwriaeth yn cyfrannu rhan sylweddol o'r costau. Seiliwyd costau gofal plant ar asesiad o incwm yr unigolyn a dim ond y rhai hynny na allent ei fforddio a'i câi am ddim.

1.4 Diolchwyd Dr Horelli gan y Cadeirydd am gyfraniad a oedd yn llawn gwybodaeth.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod Richard Edwards wedi ymddiswyddo a diolchodd iddo am ei waith yn y Pwyllgor. Nododd y Cadeirydd iddi ysgrifennu i’r Dirprwy Lywydd ynglí n â’r posibilrwydd o aildrefnu dyddiadau’r cyfarfodydd er mwyn osgoi’r cyfryw broblemau amseru a achosodd i Mr Edwards ymddiswyddo.

2.2 Wrth drafod, crybwyllwyd fod ACau o Ogledd Cymru yn ei chael hi’n anodd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar brynhawn dydd Iau. Dywedwyd hefyd, pe bai’n amhosibl osgoi cyd-daro o ran dyddiadau cyfarfodydd, o leiaf y dylai cyfarfodydd gwahanol bwyllgorau ddigwydd bob yn ail er mwyn sicrhau nad yw’r un pwyllgorau bob amser yn cyfarfod ar yr un dyddiad.

2.3 Ynglí n â chyflog cyfartal, dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod swyddogion y Cynulliad wedi cyfarfod â Felicity Williams o Gyngres yr Undebau Llafur a Kate Bennett i drafod datblygu cynllun gweithredu ar y cyd mewn ymateb i’r adroddiad "Just Pay". Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn sefydlu gweithgor a fyddai’n cyfarfod yn rheolaidd ac a fyddai’n cynnwys un cynrychiolydd o bob plaid a chynrychiolwyr Cyngres yr Undebau Llafur a’r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Tasg y grë p fyddai datblygu a chydlynu ymgyrch i hyrwyddo cyflogau cyfartal yng Nghymru. Crybwyllodd y Cadeirydd fod y Cabinet yn gefnogol iawn i’r syniad hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i’r ysgrifenyddiaeth ddatblygu cylch gorchwyl ar gyfer y gweithgor.

2.4 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor iddi gadeirio cyfarfod cyntaf Bord Gron y Sector Cyhoeddus ar Gydraddoldeb, sydd newydd ei ffurfio. Trafododd y cyfarfod fentrau cydraddoldeb Ewropeaidd, Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000 a datblygu Codau Arfer yn dilyn y Ddeddf a’r Safon Cydraddoldeb Generig ar gyfer Llywodraeth Leol. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn trefnu cyd-gynhadledd, "Beyond rhetoric – Promoting Race Equality in Public Authorities", a byddai’n gwahodd y Pwyllgor yn ogystal â gofyn i Lorraine Barrett, Peter Black, David Melding, Helen Mary Jones i arwain y sesiynau gweithdy.

2.5 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau iddi wneud datganiad ar geiswyr lloches ar 22 Mai, ac awgrymodd fod y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth ar yr ymdriniaeth o geiswyr lloches yng Nghymru. Ar wahân i gyflwyniad yr Ysgrifennydd Parhaol ar weithrediad Adroddiad McKenzie, cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn neilltuo cyfarfod 11 Gorffennaf i’r mater hwnnw a gofynnodd i’r Clerc lunio rhaglen i wahodd y Gwasanaeth Mewnfudo, Cymdeithas Genedlaethol y Ceiswyr Lloches, Gwasanaeth Carchardai y Swyddfa Gartref, Dinas a Sir Caerdydd, a Chonsortiwm Awdurdodau Lleol Cymru i hysbysu’r Pwyllgor o ddatblygiadau yn y rhaglen wasgaru. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn cymryd y dystiolaeth ac yn paratoi adroddiad byr ar gyfer y Cynulliad. Er nad oedd lloches yn fater a ddatganolwyd, roedd yn cyffwrdd â meysydd cyfrifoldeb y Cynulliad, fel darparu gwasanaethau iechyd, ac roedd yn fater sy’n effeithio ar Gymru. Roedd yn bwysig fod y Pwyllgor yn cael dealltwriaeth gliriach o’r hyn a oedd yn digwydd ledled Cymru er mwyn iddo allu cyflawni ei rwymedigaethau i’r rhai hynny sy’n ceisio noddfa yma a thrigolion Cymru.

2.6 Nododd y Cadeirydd fod y diwygiadau terfynol i adroddiad y Pwyllgor ar argymhellion Addysg

adroddiad Stephen Lawrence wedi cael eu gwneud, a’i fod wedi’i ddosbarthu i aelodau ar gyfer unrhyw gywiriadau terfynol. Byddai’r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn Cyfarfod Llawn cyn gynted ag y byddai wedi’i gyfieithu, ac yna byddai trafodaeth arno ar 17 Gorffennaf 2001. Cytunodd y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf y byddai Helen Mary Jones yn arwain y ddadl ar yr adroddiad.

2.7 Ar yr un diwrnod, byddai datganiad hefyd o’r cynllun gweithredu a ddatblygwyd yn dilyn adroddiad Roger McKenzie, ‘Lifting Every Voice’.

2.8 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod ACCAC wedi cynhyrchu llyfryn drafft ymgynghorol ar "Cyfle Cyfartal yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru" er mwyn cael sylwadau arno erbyn 22 Mehefin 2001. Roedd y llyfryn yn cael ei ddosbarthu i aelodau’r Pwyllgor er mwyn iddynt ei ystyried. Dywedodd y Cadeirydd y dylid rhoi unrhyw sylwadau i Glerc y Pwyllgor erbyn 21 Mehefin er mwyn iddo allu eu hanfon ymlaen at ACCAC.

2.9 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y papur sy’n amlinellu canllawiau’r Swyddfa Gartref ar orsafoedd pleidleisio a’r hyn a gynlluniwyd i helpu gwella hygyrchedd ar gyfer etholiad Cynulliad 2003. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd swyddogion yn bwriadu cynnal arolwg o’r trefniadau ar gyfer etholiad cyffredinol 2001 a sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal archwiliad ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Nododd y Cadeirydd fod y Comisiwn Hawliau Anabledd yn cynnal ei Arolwg ei hun ac awgrymodd fod y Pwyllgor yn ymdrin â’r mater hwn eto pan fyddai’r adroddiad hwnnw wedi’i gwblhau.

2.10 Nodwyd fod yr arolwg a gynhaliwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd yn arolwg o bleidleiswyr ac nad oedd yn amlygu gorsafoedd pleidleisio penodol ond pe bai aelodau’n dymuno codi problemau penodol â gorsafoedd pleidleisio, gallent godi hwy â’r Clerc er mwyn iddynt gael eu hanfon ymlaen i’r Cynulliad a’r CLlLC.

2.11 Awgrymodd y Cadeirydd y dylid trafod sefyllfa teithwyr mewn cyfarfod ar ôl gwyliau’r haf. Nododd fod teithwyr yn wynebu problemau â gwahaniaethu, addysg, iechyd, marwolaeth babanod, a disgwyliad einioes. Gofynnodd i swyddogion lunio rhestr o bynciau i’w trafod a sefydliadau i’w gwahodd.

2.12 Wrth drafod, nodwyd nad teithwyr yn unig a gafodd eu heffeithio, ond Sipsiwn a grwpiau tebyg eraill hefyd. Cafodd dulliau gwrthdrawiadol o fyw effaith ar gymunedau lleol. Roedd gan wahanol grwpiau anghenion gwahanol. Crybwyllwyd fod Cyngor Caerdydd wedi cael cryn brofiad yn y materion hynny ac y dylid ei wahodd.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Cyflwyniad o Bolisi Caffael y Cynulliad Cenedlaethol: Laurie Pavelin, Isadran Atebolrwydd Ariannol**

**Papur: EOC-05-01(p.1)**

3.1 Rhoddodd Laurie Pavelin y wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal drwy bolisi caffael y Cynulliad. Cynigiodd y Cynulliad "Cod Ymarfer Gwirfoddol", sef dogfen a fyddai’n ymgorffori gwerthoedd craidd y Cynulliad. Byddai cyflenwyr a fyddai’n dewis arddel yr egwyddorion a gynhwysir yn y cod yn gallu cofrestru ar gronfa ddata’r Cynulliad. Byddai hawl gan y

Cynulliad wrthod delio â’r cyflenwyr hynny sy’n gwrthod cofrestru. Yn ogystal, cynhyrchodd y Cynulliad ganllaw i gyflenwyr o’r enw "Winning our Business" sy’n anelu at annog sefydliadau i gofrestru i wneud busnes â’r Cynulliad. Roedd tudalen we caffael yn cael ei datblygu lle gallai busnesau gofrestru eu diddordeb o ran delio â’r Cynulliad. Byddai’r wefan wedi’i chwblhau erbyn mis Hydref, y llyfryn i gyflenwyr erbyn diwedd yr haf a Chod Ymarfer Gwirfoddol a’r cod cyn hyn.

3.2 Trafododd y Pwyllgor sut y byddai’r Cynulliad yn sicrhau cydymffurfiad â’r Cod Gwirfoddol. Awgrymwyd efallai y byddai hapwirio yn effeithiol, gyda’r rhai hynny sy’n methu â chydymffurfio yn peidio â chael contractau yn y dyfodol. Nododd Mr Pavelin ei bod hi’n ofynnol, ar gyfer pob contract pwysig, i’r rhai hynny sy’n cyflwyno tendr nodi polisïau a materion cysylltiedig eraill, ac felly roedd yn bosibl cael gwybodaeth cyn ymrwymo i gontract. Ystyriodd y Cynulliad fod cyfle cyfartal yn ffactor ar gyfer gwerthuso tendrau. Yn ogystal, cyn i unrhyw gontract pwysig gael ei ddyfarnu, mae’r Cynulliad yn edrych ar Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y cwmni. Dywedodd Kate Bennett fod y Cod Ymarfer Gwirfoddol yn ddatblygiad cyffrous a nododd fod nifer o awdurdodau Llundain, cyn 1988, wedi bod yn sefydlu systemau i hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffaeliad, a dylid ystyried eu profiad.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y gwaith ar y Cod Ymarfer Gwirfoddol yn gyfle cyffrous i’r Cynulliad cyfan. Os oedd unrhyw sylwadau/awgrymiadau o ran hynny, nododd y dylid eu hanfon ymlaen cyn diwedd mis Mehefin. Yn ogystal, gwahoddodd adroddiad arall ar gynnydd yn yr hydref.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad Gweithlu Cyflogau Cyfartal y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

**Cyflwyniad: Teresa Rees, Comisiynydd Cyfle Cyfartal dros Gymru**

**Papur: EOC-05-01(p.2)**

4.1 Croesawyd Teresa Rees, y Comisiynydd Cyfle Cyfartal dros Gymru, gan y Cadeirydd, ac fe’i gwahoddwyd i wneud ei chyflwyniad. Ym mis Hydref 1999, sefydlodd y Comisiwn Cyfle Cyfartal Dasglu Cyflogau Cyfartal i gymryd tystiolaeth a gwneud argymhellion ar sut i gau’r bwlch cyflogau rhwng dynion a merched. Y rheswm dros sefydlu’r Tasglu hwn oedd bod y bwlch cyflogau yn bodoli o hyd er i ddeddfwriaeth i’w ddileu gael ei phasio 30 mlynedd yn ôl. Roedd gan Brydain un o’r bylchau cyflog rhwng dynion a merched mwyaf yn Ewrop. Roedd tri phrif ffactor yn cyfrannu at hyn:

- Gwahaniaethu o ran cyflogau;
- Gwahanu galwedigaethol a
- Effaith anghyfartal cyfrifoldebau teuluol merched.

4.2 Roedd adroddiad y Tasglu’n canolbwyntio ar wahaniaethu o ran cyflogau, a ddaeth i gyfanswm o 50% o’r bwlch cyflogau ym Mhrydain Fawr. Nid oedd yn rhaid iddo fod mor uchel oherwydd, er enghraifft, roedd yn 7% yn yr Iseldiroedd. Roedd canlyniadau’r bwlch cyflogau yn bellgyrhaeddol iawn, a’r un mwyaf oedd merched a phlant yn byw mewn tlodi, allgáu cymdeithasol, anallu i gynilo pensiynau unigol (a oedd yn golygu tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd), a diffyg buddsoddi mewn hyfforddiant.

4.3 Roedd y bwlch cyflogau rhwng dynion a merched yn fater cymhleth. Nid ynghylch dynion a merched yn

gwneud yr un gwaith ar gyfer cyflogau gwahanol yn unig ydoedd. Fel y crybwyllodd Lisa Horelli, roedd y broblem yn ymwneud yn fwy â diwylliant yr "enillwyr cyflog – gwneuthurwyr cartref". Tueddai merched i gymryd seibiannau i ffwrdd o'u gyrfaoedd pan roeddent yn cael plant. Pan oeddent yn dychwelyd i'r gwaith, roeddent yn tueddu i gael swyddi ar raddfeydd is. Cyfrifwyd bod merched ym Mhrydain Fawr yn colli 50% o gyflogau eu bywydau o ganlyniad i seibiannau o'u gyrfaoedd (yn Ffrainc, dim ond 1% oedd y ffigur cyfatebol). Arddangoswyd graddio gwahaniaethol, er enghraifft, yn y tâl yr oedd ysgrifenyddesau a thechnegwyr yn ei gael am eu swyddi: tueddai merched i fod yn ysgrifenyddesau ac er bod eu gwaith yn dechnegol a chymhleth iawn, roedd eu cyflogau llawer yn is na rhai'r technegwyr, a oedd yn tueddu i fod yn ddynion. Cynigiodd y Tasglu Cyflogau Cyfartal ymagwedd amlochrog at ymdrin â'r broblem, gan ganolbwyntio ar

- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn a olygai'r bwlch cyflogau
- Diwygio a moderneiddio'r ddeddfwriaeth cyflogau cyfartal
- Datblygu gallu i sicrhau bod cyflogwyr ac undebau llafur yn gwybod sut i weithredu cyflogau cyfartal
- Gwella eglurder a datblygu atebolrwydd ar gyfer cyflenwi cydraddoldeb o ran cyflogau
- Diwygio polisïau cymdeithasol, economaidd a marchnad lafur i gyd-fynd â mesurau cyflogau cyfartal

4.4 Argymhellodd y Tasglu fod cyflogwyr yn cynnal arolygon cyflogau cyfartal yn rheolaidd. Roedd cynnal arolygon cyflogau yn fuddiol iawn i'r gweithwyr a'r cyflogwyr am eu bod yn cynyddu eu cystadleugarwch ac yn eu gwneud yn "gyflogwyr a ddewiswyd". Dylid ystyried arolygon cyflogau fel dangosyddion perfformiad. Dylai grantiau fod yn ddibynnol ar yr ymrwymiad i arolygon cyflogau. Yng Nghymru, roedd gan Awdurdod Datblygu Cymru rôl benodol o ran hynny fel yr awdurdod sy'n gyfrifol am grantiau. Cynhaliodd y Cynulliad ei Archwiliad Cyflogau Cyfartal, ac o ganlyniad, roedd yn enghraifft i bawb. Nod y Tasglu oedd dileu'r bwlch cyflogau yn llwyr o fewn yr 8 mlynedd nesaf. Roedd cyflogau anghyfartal nid yn unig yn anghyfiawn, roeddent yn anghyfreithlon hefyd.

4.5 Diolchwyd Yr Athro Rees gan y Cadeirydd am ei chyflwyniad. Nododd y gallai arolygon cyflogau fod yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer partneriaethau llywodraeth leol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac y byddai arolygon cyflogau statudol yn sicrhau gweithdrefn unffurf.

4.6 Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Adroddwyd yn y wasg fod merched yn 1 o bob 3 cartref ym Mhrydain Fawr yn ennill mwy na dynion. Atebodd Teresa Rees nad oedd y data ystadegol sydd ar gael yn cefnogi hyn. Roedd yr anghydraddoldeb o ran cyflogau yn bodoli mewn nifer o broffesiynau, er enghraifft chwaraewyr tenis, grwpiau cerddoriaeth bop, ac actorion.

- Gofynnwyd cwestiwn ynglí n ag effaith archwiliadau cyflogau ar gwmnïau bach. Atebodd Teresa Rees fod llawer o gwmnïau bach yn cyflogi merched yn unig neu ddynion yn unig beth bynnag, ond roedd yr arolygon wedi rhagweld ymagwedd dau gam sut bynnag, lle archwiliwyd y cwmni yn gyntaf i nodi a oedd ganddo broblem o gwbl, ac os nad oedd ganddo, roedd y mater yn dod i ben yn y fan honno.
- Roedd cenhedlaeth o ferched ym Mhrydain a oedd wedi cymryd seibiannau o'u gyrfaoedd yn y gorffennol bellach yn cael pensiynau isel iawn. Awgrymwyd y dylai mwy o Bwyllgorau gymryd rhan wrth ymdrin â hyn (e.e. Iechyd).

- Pan oedd merch yn cymryd saib o'i gyrfa, roedd yn colli cyfraniadau pensiwn a dyrchafiadau. Gallai hynny newid. Canfu profiad yn Sweden yr ystyriwyd fod dynion a oedd wedi cymryd cyfnodau rhieni wedi meithrin "sgiliau aml-dasg" ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith ac fe'u gwerthfawrogwyd yn fwy fel gweithwyr.

- Roedd y broblem o fwlch cyflogau yn cynnwys prentisiaethau modern, lle'r oedd pobl sy'n trin gwallt dan hyfforddiant (merched fel arfer) yn cael eu talu llai na pheirianwyr dan hyfforddiant (dynion fel arfer).
- Yn ogystal, nodwyd bod pobl iau o'r ddau ryw sy'n 16-17 mlwydd oed yn ennill llawer llai na phobl 18-19 mlwydd oed am wneud yr un swydd: roedd archfarchnadoedd yn tueddu i gyflogi pobl iau a thalu llai iddynt nag y byddai'n rhaid iddynt dalu i weithwyr hí n.

4.7 Dywedodd y Cadeirydd fod y cyflwyniad a'r drafodaeth yn gynhyrchiol iawn. Roedd y Cadeirydd yn bwriadu siarad â'r Gweinidogion perthnasol er mwyn gallu trafod y problemau a amlygwyd mewn Pwyllgorau eraill.

4.8 Gwahoddwyd Margaret Evans gan y Cadeirydd i siarad am Archwiliad Cyflogau Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001. Dywedodd Mrs Evans mai dyma oedd yr ail archwiliad i'r Cynulliad ei gynnal. Astudiodd archwiliad eleni gyflogau staff croenddu, staff o leiafrifoedd ethnig a staff anabl a dadansoddodd y lwfansau cyflogau yn seiliedig ar sgiliau, gan ddarparu sail ar gyfer cymharu yn y dyfodol. Diolchodd Mrs Evans bob un o'r tri chorff cydraddoldeb a helpodd â'r archwiliad. Dywedodd fod bwlch cyflogau yn dal i fodoli yn y Cynulliad. Ym mandiau A, B a C, roedd y cyflog sylfaenol ar gyfartaledd i ferched yn uwch na'r un i ddynion, ond newidiodd hyn yn Band D. Ar raddfeydd penodol, roedd dynion yn bennaf. Etifeddwyd system cyflogau'r Cynulliad o'r Swyddfa Gymreig ac roedd data'r Cynulliad Cenedlaethol yn adlewyrchu'r problemau a oedd yn bodoli'n draddodiadol yn y Gwasanaeth Sifil. Ar y pryd, roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal trafodaethau ag Undebau Llafur ar ddiwygio'r system cyflogau yn sylfaenol. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys cyfraddau datblygu cyflymach a lleihau bandiau cyflogau.

4.9 Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Nodwyd fod y bwlch cyflogau sy'n ffafrio merched ar raddfeydd penodol o bosibl yn deillio o hyd y cyfnod yr oedd merched wedi aros yn y graddfeydd is.

- Ar raddfeydd is, ychydig iawn o bobl a nododd eu hunain yn anabl: ym Mand A, roedd llai na 3% o bobl anabl, tra ym Mand "F", roedd 7%. Efallai bod hyn wedi dynodi pryder ymhlith personél iau ynghylch nodi eu hunain yn anabl.

- Roedd cyflogau personél anabl ar gyfartaledd yn uwch na rhai eu gweithwyr cyfatebol nad oeddent yn anabl, ond efallai bod hyn yn dangos bod gweithwyr anabl yn aros yn eu graddfeydd priodol am fwy o amser.

- Cafodd mwy o ferched a Phabyddion eu dyrchafu o ganlyniad i sefydlu system canolfan asesu yng Ngogledd Iwerddon.

4.10 Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai am gael ei hysbysu o ganlyniad negodiadau ag Undebau Llafur ac unrhyw gynlluniau gweithredu dilynol, er na ellid eu trafod ar hyn o bryd.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Data sydd ar gael o fewn y Cynulliad Cenedlaethol**

**Cyflwyniad: Peter Fullerton, Prif Ystadegydd**

**Papur: EOC-05-01(p.3)**

5.1 Ym mis Ionawr, cynigiodd y Pwyllgor y dylai'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol baratoi papur ar argaeledd y data ar gyfle cyfartal. Cyflwynodd Alan Jackson y papur i'r Pwyllgor.

5.2 Dywedodd Alan Jackson fod y Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn y broses o baratoi bwletin Ystadegol sy'n archwilio ffynonellau data ac ymchwil cysylltiedig. Nododd fod cynllun strategol y Cynulliad yn diffinio tair prif thema i ddylanwadu ar y ffordd y byddai'n datblygu ei bolisïau, ei gyllideb a'i raglenni, gan gynnwys cyfle cyfartal. Roedd y thema hon yn cynnwys anghydraddoldebau ym meysydd rhyw, hil, anabledd, crefydd, oedran, iechyd. Byddai'r Bwletin yn cwmpasu'r meysydd hynny.

5.3 Diolchwyd Mr Fullerton a Mr Jackson gan y Cadeirydd am eu cyflwyniad. Wrth drafod, crybwyllwyd y canlynol:

- Nodwyd fod data ar anghydraddoldebau o ran iechyd yn broblematig. Nodwyd fod anabledd yn gyffredinol yn gategori mwy defnyddiol.
- Roedd cyfeiriadedd rhywiol yn faes anodd arall ac ni chrybwyllwyd hwn yn y papur, er y gallai data o'r fath fod o ddiddordeb.
- Cydweithiodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn unol â'r Cytundeb Ystadegol.

5.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol i gyfarfod â'r asiantaethau cydraddoldeb i baratoi papur ar y cyd ar sut y gellir datblygu ffynonellau data, gan roi adroddiad yn ystod yr hydref ar y cynnydd yn eu gwaith.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Polisi Penodiadau'r NHS**

**Cyflwyniad: Stephen Redmond, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, NHS Cymru**

**Papur: EOC-05-01(p.4)**

6.1 Roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud penodiadau cyhoeddus i gyrff yr NHS yng Nghymru. Polisi'r Cynulliad ar gyfer penodi cadeiryddion a chyfarwyddwyr anweithredol i fyrddau'r awdurdodau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS oedd y cyntaf i gynnwys cyfle cyfartal. Byddai'r polisi yn cael ei adolygu ymhen 12 mis er mwyn gweld sut yr oedd wedi gweithio. Wrth ddenu ymgeiswyr, ystyriwyd y ffyrdd canlynol:

- Hunan-enwebu;
- Enwebiadau gan ACau, ASau, ASEau a chyrff eraill
- Ymgeiswyr a gofnodwyd ar gronfa ddata

6.2 Byddai'n rhaid i aelodau presennol o fyrddau'r NHS sy'n ceisio cael eu hailbenodi gyflwyno cais newydd os gwnaed eu cais blaenorol mwy na 2 flynedd yn ôl. Byddai swyddi gwag yn cael eu hysbysebu. Cynigiwyd y mesurau canlynol i annog diddordeb:

- Diwrnodau agored;
- Cyfleoedd i gysgodi;
- Mentora;
- Proses adolygu reolaidd
- Seminarau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf
- Gweithdai datblygu

6.3 Derbyniwyd llawer o'r awgrymiadau yn adroddiad Wendy Morgan ar benodiadau cyhoeddus. Byddai diwrnodau agored yn cael eu cynnal ar gyfer pobl sydd am ddod yn gyfarwyddwyr anweithredol. Byddai rhaglen hyfforddi helaeth yn cael ei chynnig i gadeiryddion presennol. Fodd bynnag, roedd grwpiau a dangynrychiolwyd o fewn maes gofal iechyd o hyd yn fater i NHS Cymru. Roedd diwygiadau yn digwydd yn yr NHS ar y pryd a gallai hynny effeithio ar y ffordd y cynhaliwyd y penodiadau. Byddai papur ymgynghorol yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn ystod mis Gorffennaf.

6.4 Diolchwyd Mr Redmond gan y Cadeirydd am ei gyflwyniad a gwahoddodd sylwadau. Mynegodd Will Bee bryderon na fyddai pobl anabl o hyd yn ystyried eu hunain yn ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Roedd perthnasau rhwng yr anabl a phobl broffesiynol y gwasanaeth iechyd wedi'u gosod ar ffurf benodol iawn, gyda phobl anabl mewn safle isradd. Roedd angen cymryd ymagweddau newydd i oresgyn y rhwystrau hyn, fel sefydlu cronfeydd o bobl (fel cyrff llywodraethu ysgolion) i gyflwyno ymgeiswyr addas.

6.5 Nododd Mike Harper fod penodiadau'r NHS yn wahanol yn ansoddol i'r penodiadau mewn meysydd cyhoeddus eraill. Roedd angen ymagwedd mwy unffurf arnynt na Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Nodwyd na fyddai'r cyfeiriad at y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol yn y polisi yn briodol o bosibl ond efallai y byddai deddfwriaeth diogelu data yn fwy perthnasol.

6.67 Awgrymodd y Cadeirydd y dylai sylwadau pellach aelodau, os bydd ganddynt rai, gael eu hanfon i'r Clerc er mwyn iddynt gael eu hanfon ymlaen at y Gweinidog.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol ar Drefniadau'r Cynulliad i Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**

**Papur: EOC-05-01(p.5)**

7.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i drafod drafft terfynol ei adroddiad blynyddol. Nodwyd fod fformat presennol yr adroddiad o gymorth. Fodd bynnag, byddai'n ddiddorol gwybod beth oedd y sefyllfa o ran cyfle cyfartal mewn is-adrannau gwahanol. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad byr gan bob isadran ym

mis Hydref ar ba amcanion a osodwyd a gwerthusiad o’r canlyniadau a gyflawnwyd mewn perthynas â chyfle cyfartal. Yna, os byddai’r Pwyllgor yn nodi meysydd sy’n achosi pryder, gallai eu trafod hwy gyda’r Gweinidog sy’n gyfrifol.

7.2 Roedd y pwyntiau a godwyd ynglí n â’r adroddiad hwn yn cynnwys:

- Yn Atodiad A1, ymddangosodd fod yna ddryswch rhwng ystyr rhyw a rhywioldeb, gyda materion yn ymwneud â rhywioldeb yn ymddangos o dan y pennawd "rhyw".

- Yn y rhagair ar dudalen 2 yn y paragraff cyntaf, dylid ailosod y geiriau "cymorth trawsbleidiol" gyda "cymorth pob plaid".

- Crybwyllwyd y gwaith a wnaed o amgylch adroddiad Stephen Lawrence a’r canlyniad, ond ni ddisgrifiwyd y broses. (Roedd yn broses anodd a heriol ac roedd angen cryn dipyn o amser cyn y gellid dod i gytundeb). O fewn y Cynulliad, roedd ewyllys gwleidyddol ac ewyllys gweinyddol cynyddol ar gyfer cyfle cyfartal, ond roedd angen i ni gydnabod nad oedd y gwaith hwn bob amser yn hawdd.

- Ystyriwyd y paragraff ar "Diwylliant a Chwaraeon" ar dudalen 27 yn rhy fyr o ystyried ei bwysigrwydd. Gwnaed sylwadau hefyd ynglí n ag annigonolrwydd cymharol yr ariannu ar gyfer clybiau pêl fas a bocsio.

7.3 Gwahoddwyd Will Bee gan y Cadeirydd i wneud sylwadau ar ymateb y Cynulliad i Adroddiad y Tasglu Hawliau Anabledd. Dywedodd Mr Bee nad oedd yr ymateb yn rhoi chwarae teg i’r Cynulliad am nad oed yn rhoi manylion llawer o’r gwaith yr oedd y Cynulliad yn ei wneud. Nododd fod Adroddiad y Tasglu yn nodi isafswm safonau ar gyfer gweithredu ac y byddai’n cael ei ddiweddaru yn yr hydref. Nododd y Cadeirydd y dylai’r adroddiad wedi’i ddiweddaru gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor fel eitem ar yr agenda yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur: EOC-04-01(min)**

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gyda diwygiad sy’n adlewyrchu’r ffaith fod diwrnodau’r cyfarfodydd yn broblem i lawer o aelodau.

Papurau i’w nodi

| | |
|---|---|
| Mynediad i orsafoedd pleidleisio | EOC-05-01(p.6) |
| Gwybodaeth am yr archwiliadau cyflogau ar gyfer staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru | EOC-05-01(p.7) |

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Cydraddoldeb y Cynulliad | EOC-05-01(p.8) |
| Ymateb y Cynulliad i Adroddiad y Tasglu Hawliau Anabledd | EOC-05-01(p.9) |